

Y Pwyllgor Rheol Trefniadaeth Sifil – ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i ddarpariaethau sy'n ymwneud â gweinyddu cyfraith Cymru

1. Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i ddarpariaethau gweithdrefnol sy'n ymwneud â dehongli cyfraith Cymru.
2. Mae'n egwyddor hirsefydlog bod y corff o gyfreithiau a weinyddir gan lysoedd Cymru a Lloegr yn rhannol ddwyieithog. Ers 1999, mae Offerynnau Statudol Cymru wedi cael eu deddfu yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac, o 2007 ymlaen, mae'r un arfer wedi bod yn berthnasol i ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae rhaglen Llywodraeth Cymru i gydgrynhoi a chodio deddfwriaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu llyfr statud dwyieithog ar gyfer Cymru.
3. Er gwaethaf ymdrechion gorau drafftwy'r deddfwriaeth, wrth wynebu realiti bywyd sydd yn aml yn gymhleth, gall darpariaethau yn aml fod yn agored i ddehongliad - ac anghytundeb, o ganlyniad - ynghylch eu hystyr. Mae drafftio'n ddwyieithog yn cynyddu'r risg o ansicrwydd ymhellach ac yn agor y posibilrwydd o anghysondeb rhwng testun mewn dwy iaith.
4. Yn 2015, cynhaliodd Comisiwn y Gyfraith ystyriaeth drylwyr o'r materion sy'n codi wrth ddeddfu mewn dwy iaith (neu fwy) fel rhan o'i waith ar *Ffur a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru*. Ystyriodd Comisiwn y Gyfraith yn fanwl sut mae deddfwriaeth ddwyieithog yn cael ei dehongli, yn enwedig yng Nghnanada lle bu rhywfaint o ddadl ynghylch a ellid cymhwyso rheol dehongli 'ystyr a rennir' i'r testunau Saesneg a Ffrangeg, a chytunodd ag ymateb i'r ymgynghoriad nad yw'r defnydd o dystiolaeth arbenigol neu aseswr ieithyddol "yn ddewis derbyniol i gymryd lle barnwr dwyieithog". Trafodir hyn ymhellach mewn erthygl a ysgrifennwyd gan Brif Gwnsler Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn y Statute Law Review ym mis Ebrill 2024, *Cyfraith dwyieithog yng Nghymru (a Lloegr): goblygiadau gwneud cyfreithiau mewn dwy iaith*, sydd hefyd ynghlwm i'n hymateb.
5. Rydym yn pryderu bod Opsiwn 3 wedi'i ffafrio, gan mai ein barn gadarn iawn yw mai Opsiwn 2 yw'r unig opsiwn sy'n gyfreithlon mewn gwirionedd (Cwestiynau 2,3 a 4). Mewn geiriau eraill, nid oes unrhyw opsiynau eraill. Y pwynt sylfaenol yma yw bod Senedd y DU (yn Neddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006) ac yn ddiweddarach Senedd Cymru yn Neddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ("Deddf Dehongli" Cymru) wedi ei gwneud yn glir bod gan y Gymraeg a'r Saesneg mewn deddfwriaeth statws cyfartal *at bob diben*:

5 Statws cyfartal testunau Cymraeg a Saesneg

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo Deddf gan Senedd Cymru yn cael ei deddfu, neu pan fo is-offeryn Cymreig yn cael ei wneud yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- (2) Mae i'r testun Cymraeg a'r testun Saesneg statws cyfartal at bob diben.

6. Os oedd unrhyw amheuaeth ynglŷn ag ystyr y darpariaethau statudol a wnaed (yn wreiddiol gan Senedd y DU ac yn ddiweddarach gan Senedd Cymru) ynghylch statws cyfartal testunau Cymraeg a Saesneg cyfraith Cymru (ac yn ein barn ni nid oedd dim), mae dyfarniad y Llys Apêl yn *Driver v Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf* [2020] EWCA Civ 1759 wedi cadarnhau'r safbwynt – rhaid i'r llysoedd ddehongli'r ddwy iaith yn y ffordd arferol, mewn perthynas â'r ddwy iaith yn gyfartal, os oes unrhyw anghytundeb ynghylch ystyr y ddau destun. Goblygiadau'r dyfarniad hwn oedd testun y llythyr, sydd wedi'i atodi, a anfonwyd gan Gwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru ar y pryd, Jeremy Miles MS, at yr Arglwydd Brif Ustus ar y pryd, yr Arglwydd Burnett o Maldon.
7. Yn hynny o beth, mae'r testun o dan y paragraff cyntaf yn 12.2 o'r papur ymgynghori yn nodedig oherwydd ein bod yn glir mai dyna, mewn gwirionedd, yr union beth sydd ei angen. Os oes problem gyda nifer y barnwyr dwyieithog y mae'n rhaid i ni ddelio â hyn, mae'n rhaid mynd i'r afael â hyn drwy fabwysiadu mesurau tymor byr, megis "awdurdodaeth" ("ticketing") neu o bosibl delio ag anghydfod dehongli fel mater rhagarweiniol (sicrhau barnwr dwyieithog at y diben hwnnw), os oes angen – yn ogystal â mabwysiadu cynllun tymor hwy i gael mwy o farnwyr dwyieithog naill ai drwy benodi mwy o farnwyr sydd eisoes yn siarad Cymraeg neu drwy hwyluso barnwyr presennol i ddysgu Cymraeg.
8. Nodedig hefyd yw'r esboniad sy'n gysylltiedig â'r eithriad arfaethedig i'r rheol ym mharagraff 13: "Byddai argaeledd barnwrol a ffactorau eraill o fewn y Brif Amcan fel oedi yn berthnasol." Rhaid i ni bwysleisio bod natur ddwyieithog deddfwriaeth Cymru, ac felly'r iaith Gymraeg, yn rhan sylfaenol o'r cysyniad o gyfiawnder yng Nghymru. Yn syml, mae hyn oherwydd bod cyfraith Cymru ei hun yn ddwyieithog. Os nad yw llys yn nodi, neu'n methu â deall, dehongliad o'r testun Cymraeg sy'n fwy ffafriol i'r naill barti neu'r llall, mae'r sgôp ar gyfer anghyfiawnder yn sylweddol.
9. Rydym yn gwerthfawrogi bod goblygiadau ymarferol i'r gyfraith, ond mae deddfwriaeth ddwyieithog, gyda statws cyfartal, wedi bodoli ers mwy na chwarter canrif. Ni ddylai'r ffocws, felly, fod ar ba reolau gweithdrefn y gall y llysoedd eu mabwysiadu ond ar *sut* mae'r llysoedd yn sicrhau y byddant yn gweinyddu cyfraith Cymru yn briodol yn unol ag adran 5 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 a dyfarniad y Llys Apêl.

Julie James AS
Y Cwnsler Cyffredinol
Llywodraeth Cymru
7 Ionawr 2026